# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| |
|---|
| **Pwyllgor: Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad y cyfarfod: 7 Mehefin, 2012** |
| **Cyfarwyddwr Corfforaethol Perthnasol: Prif Weithredwr** |
| **Comisiynwyr Perthnasol: MICK GIANNASI** |

## Siarter gyda Chynghgorau Tref a Chymuned Ynys Môn:

### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

Diweddaru'r Pwyllgor am y cynnydd yn natblygiad y Siarter.

### 2.0 Cefndir

Cyflwynwyd adroddiad ar y 'Strategaeth Adnewyddiad Democrataidd' a gymeradwywyd gan Fwrdd y Comisiynwyr yn ei gyfarfod ar y 5 Medi, 2011i gyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 29 Mawrth, 2012.

Un o'r ffrydiau gwaith allweddol o fewn y Strategaeth honno oedd i ddatblygu Siarter Drafft i gryfhau'r berthynas rhwng y Cyngor a Chynghorau Tref a Chymuned Môn.

Tros y misoedd diwethaf bu Panel o Swyddogion o'r Cyngor a Chlercod o'r Cynghorau Tref a Chymuned yn cyfarfod i ddatblygu Siarter drafft. Cylchredwyd drafft terfynol y Panel (gweler yr atodiad i'r adroddiad hwn) i'r Cynghorau Tref a Chymuned am eu sylwadau.

Derbynwyd 5 ymateb. Roeddynt yn nodi eu bodlonrwydd â'r drafft.

Roedd y prif negesuon eraill yn cynnwys cyfeiriad at yr angen:

- am fwy o amser i ymateb i ymgynghoriadau
- i gymryd sylw o sylwadau
- am ymrwymiad o ran y graddfa amser i ymateb i ohebiaeth
- i ystyried y pryderon ynglyn â symud i ffwrdd o ohebiaeth papur i systemau electroneg

Bydd modd ystyried y prif negeseuon hyn wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu sydd i gydfynd a'r ymrwymiadau yn y Siarter drafft.

Y bwriad fydd adrodd i'r Bwrdd Comisiynwyr ym mis Gorffennaf.

**3.0** Gofynnir i'r Pwyllgor gynnig sylwadau ar y Siarter Drafft ynghŷd â'r sylwadau dderbyniwyd gan y Cynghorau Tref/Cymuned yn ystod y broses ymgynghori.

**Huw Jones, Pennaeth Gwasanaeth (Polisi), Adran y Prif Weithredwr**

*28 Mai, 2012*

---

**Atodiadau:** Siarter Drafft

**Papurau Cefndir:**

- Adroddiad 'Strategaeth Adnewyddiad Democrataidd' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 29 Mawrth, 2012
- Adroddiad 'Strategaeth Adnewyddiad Democrataidd' a gyflwynwyd i gyfarfod y Bwrdd Comisiynwyr ar y 5 Medi, 2011

**Swyddog Cyswllt:** Eurwyn Griffith, Swyddog Polisi

4 Ebrill, 2012

# SIARTER CYMUNED AR Y CYD

**Partneriaid y Siarter**
Cyngor Sir Ynys Môn
a Chynghorau Cymuned a Thref Ynys Môn

## Cyflwyniad

Mae Cynghorau Tref a Chymuned Ynys Môn a Chyngor Sir Ynys Môn wedi cytuno i gyhoeddi siarter sy’n nodi sut y bwriadwn gydweithio er budd cymunedau lleol tra’n cydnabod ein priod gyfrifoldebau fel cyrff statudol ymreolaethol a etholwyd yn ddemocrataidd.

Cynlluniwyd y siarter i adeiladu ar yr arferion da presennol ac i gynnwys y cyd-egwyddorion canlynol: bod yn agored, parchu barn ein gilydd, bod yn onest, a’n blaenoriaeth gyffredin o ganolbwyntio ar y dinesydd. Mae’r siarter hon yn seiliedig ar bartneriaeth gyfartal ac nid yw’n drefniant o’r brig i’r bôn.

## Cydnabyddiaeth

Derbyniwn ddilysrwydd a manteision gweithio mewn partneriaeth, er yn cydnabod ac yn parchu rolau ein gilydd yr un pryd. Anelwn at gydweithio fel partneriaeth gyfartal yn hytrach nag mewn haenau.

| Cyngor Sir Ynys Môn | Cynghorau Tref a Chymuned |
|---|---|
| Yn cydnabod ac yn sylweddoli bod Cynghorau Tref a Chymuned wrth wraidd llywodraeth leol. Yn eu rôl fel cyrff sy’n atebol yn ddemocrataidd, mae Cynghorau Tref a Chymuned yn cynnig modd o ymgysylltu gyda phobl leol, datganoli’r modd y darperir rhai gwasanaethau ac adfywio cymunedau lleol. | Yn cydnabod pwysigrwydd strategol y Cyngor Sir ynghyd ag arbedion maint a dosbarthiad cyfartal rhai gwasanaethau y gallant eu cyflawni. |
| Yn cydnabod a pharchu’r amrywiaeth o Gynghorau Tref a Chymuned , a’r ffaith fod eu hanghenion a lefel eu cyfrifoldeb yn amrywio yn ôl eu maint. | Yn cydnabod bod cynghorau tref a chymuned yn hunanlywodraethol. |

## Llywodraethu Lleol

Nodwn yn glir yr hyn a ddisgwyliwn oddi wrth ein gilydd er mwyn hwyluso perthynas weithio ddidrafferth. Yn hyn o beth, diffiniwn y ffordd y byddwn yn rhyngweithio â’n gilydd. Byddwn yn glir o ran rôl cynghorwyr ar bob lefel yn y berthynas ac o ran arweinyddiaeth gymunedol.

Draft

| Cyngor Sir Ynys Môn | Cynghorau Tref a Chymuned |
|---|---|
| Yn cynnal cyfarfodydd cyswllt bob *chwarter* gyda chynrychiolwyr pob cyngor Tref a Chymuned sy'n dymuno cymryd rhan. Bydd manylion y cyfarfodydd ar gael ar wefan y Cyngor. | Yn cyfrannu at agenda cyfarfodydd cyswllt a chyfrannu'n rhagweithiol o ran presenoldeb a thrafodaethau. |
| Yn penodi aelod o staff a enwebwyd yn swyddog cyswllt rhwng y Cyngor a'r Cynghorau Tref a Chymuned. | Yn cysylltu â'r swyddog a enwebwyd ynghylch y materion y cytunwyd arnynt a rhoi gwybod iddynt am unrhyw anawsterau a wynebir. |
| Yn sicrhau bod y trefniadau yn eu lle i rannu gwybodaeth gyda Chynghorau Tref a Chymuned ar ddogfennau strategol allweddol ac ar waith y partneriaethau lleol allweddol. | Yn darparu atborth i'r Cyngor Sir ar faterion allweddol ac ymateb i ymgynghori penodol mewn modd amserol a phriodol. |
| Bydd cynghorwyr/swyddogion yn mynychu cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned os tybir bod hynny'n briodol. | Yn gwahodd cynghorwyr/swyddogion y Cyngor Sir I gyfarfodydd os yn briodol ac, yn unol â'u disgresiwn, rhoi cyfle iddynt wneud cyflwyniadau. |
| Yn gweinyddu etholiadau Cynghorau Tref a Chymuned. | Yn nodi'r angen am etholiadau mewn modd amserol. |

**Ymgynghori**

Gwerthfawrogwn bwysigrwydd ymgynghori ystyrlon a nodwn fod ymrwymiad gwirioneddol gan bob parti i ymgynghori ar faterion sy'n bwysig i ni i gyd. Byddwn yn cytuno ar weithdrefnau a phrosesau clir, penodol, wedi'u hamseru, ar gyfer ymgynghori.

| Cyngor Sir Ynys Môn | Cynghorau Tref a Chymuned |
|---|---|
| Yn anelu at roi cyfle i Gynghorau Tref a Chymuned wneud sylwadau cyn gwneud penderfyniad sy'n effeithio ar y gymuned leol yn sylweddol ac yn benodol. | Yn ymateb i gyfleoedd i ymgynghori mewn modd amserol, gan fynd i'r afael â'r materion allweddol yn y ddogfen ymgynghori. |
| Yn paratoi calendr blynyddol o ddigwyddiadau ymgynghori a raglennir ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned. | Bydd pob Cyngor Tref a Chymuned yn rhoi manylion i'r Cyngor Sir ynghylch dyddiadau ac amlder eu cyfarfodydd. |
| Yn rhyddhau drwy ddulliau electronig neu ar ffurf copi caled os derbynnir cais am hynny, gopi o ddyddiadur y cyfarfodydd cyhoeddus a rhyddhau copïau o bapurau'r rhaglenni cyhoeddus ar wefan y Cyngor cyn gynted ag sy'n bosibl. | Gwneud defnydd llawn o'r papurau sydd ar gael ar eu cyfer i wneud penderfyniadau ystyrlon yn lleol. |
| Bydd Swyddogion y Cyngor Sir yn bresennol mewn cyfarfodydd gyda Chynghorau Tref a Chymuned os yw'r ddwy ochr yn cytuno bod hynny'n briodol ac ar amser y cytunwyd arno gan | Bydd Cynghorwyr a Swyddogion y Cyngor Sir yn cael cyfle i siarad mewn cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned ar faterion sydd o ddiddordeb cyffredin. |

Draft

Drafft

| | |
|---|---|
| y ddwy ochr i drafod materion sydd o ddiddordeb cyffredin pan ofynnir iddynt wneud hynny a phan roddir digon o rybudd. | |
| Yn annog pwyllgorau sgriwtini i gysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned ar faterion lleol perthnasol. | Yn ymateb i geisiadau i roi barn i bwyllgorau sgriwtini. |

**Gwybodaeth a Chyfathrebu**

Gwerthfawrogwn yr angen am wybodaeth a phroses gyfathrebu amserol, glir a pherthnasol o ran meithrin cydberthnasau da a gwell cydweithio er budd pobl leol.

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | **Cynghorau Tref a Chymuned** |
|---|---|
| Yn rhoi rhestr o enwau cyswllt, rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost, pan fo'n bosibl, ar gyfer ymholiadau yn ymwneud â materion gweithredol i Gynghorau Tref a Chymuned. | Yn defnyddio'r pwyntiau cyswllt. |
| Yn paratoi bwletin yn achlysurol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynghorau Tref a Chymuned ar y prif ddatblygiadau yn y Cyngor Sir. | Bydd y Clerc yn sicrhau bod yr holl gynghorwyr cymuned yn gallu cael gafael ar y wybodaeth. |
| Yn cyfathrebu drwy sicrhau bod aelodau a swyddogion Cynghorau Tref a Chymuned yn gallu cael gafael ar yr holl ddogfennau cyhoeddus, fel arfer drwy'r wefan. | Yn sicrhau bod pob Cynghorydd Tref a Chymuned yn gallu cael gafael ar y dogfennau priodol. |
| Yn hyrwyddo trefniadau cyswllt ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned ar wefan y Cyngor. | Yn darparu manylion cyswllt ar gyfer pob Cyngor Tref a Chymuned. |

**Cydweithio ac ymgysylltu**

Yn ôl y Siarter ystyr 'Partneriaeth' yw cydweithio tuag at gyfres gyffredin o nodau, sy'n seiliedig ar gydraddoldeb o ran perchenogaeth, gwneud penderfyniadau a chydnabod cyfraniad hynod pob parti. Cydnabyddir bod partneriaeth gyfartal ac effeithiol yn arwain at fanteision a chyfrifoldebau i bawb dan sylw. Mae'n rhaid i lywodraeth leol ar y ddwy haen gydweithio i hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ein hardal. Os yw gwneud pethau'n wahanol yn cyflawni gwell gwasanaeth, byddwn yn ystyried o ddifrif y dulliau hynny o weithredu.

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | **Cynghorau Tref a Chymuned** |
|---|---|
| Yn rhoi cyfleoedd i glercod Cynghorau Tref a Chymuned gyfarfod i drafod pryderon cyffredin a datrys materion. | Yn annog clercod i gyfranogi drwy gyfleoedd i rwydweithio a rhannu pryderon cyffredin. |
| Yn hyrwyddo cyfleoedd i weithio gyda'r | Yn cefnogi'r dull Model Ardal o |

| | |
|---|---|
| Cynghorau Tref a Chymuned drwy'r Model Ardal i gyfathrebu ac ymgynghori gyda phobl a chymunedau lleol. | gyfathrebu gyda phobl a chymunedau lleol. |

**Cynllunio'r Defnydd o Dir**

Mae Cynghorau Tref a Chymuned yn adnabod ac yn deall eu hardal leol a rhaid iddynt allu gwneud sylwadau ar faterion cynllunio mewn ffordd effeithiol. Gall y Cyngor Sir gymryd trosolwg o anghenion yr ardal leol gyfan a gwneud penderfyniadau, gan ystyried safbwyntiau lleol.

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | **Cynghorau Tref a Chymuned** |
|---|---|
| Yn cynnal ei ddyletswydd statudol i ymgynghori â Chynghorau Tref a Chymuned ar bob cais cynllunio yn eu cymunedau | Yn rhoi ymatebion priodol i'r Cyngor Sir o fewn cyfnod ymgynghori o 21 diwrnod a chydnabod y paramedrau a mynnir arnynt gan gyfraith cynllunio a'r polisïau cynllunio y cytunwyd arnynt.<br><br>Gwneud defnydd o'r hyfforddiant a gynigir gan Planning Aid ar reoli datblygiad a materion polisi. |
| Yn parhau i sicrhau fod Cynghorau Tref a Chymuned yn cael copïau o benderfyniadau a wnaed ar geisiadau perthnasol i'w hardaloedd (mewn modd amserol) a pharhau i anfon copïau o adroddiadau Pwyllgor neu adroddiadau dirprwyedig pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ar geisiadau a'r rheiny'n wahanol i argymhelliad Cyngor Tref neu Gymuned. | Yn cynnal dull gwrthrychol a phroffesiynol bob amser mewn perthynas â cheisiadau cynllunio. |
| Yn rhoi i Gynghorau Tref a Chymuned wybodaeth ynghylch cyfarfodydd y pwyllgor cynllunio drwy ddulliau electronig neu ddulliau eraill i sicrhau eu bod yn cael y cyfle i siarad yn y cyfarfod. | Cynghorwyr i achub ar y cyfle i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd o'r pwyllgor cynllunio. |
| Yn parhau i gyfathrebu gyda Chynghorau Tref a Chymuned nail ai'n electronig neu ar bapur. | Yn ceisio symud i ffwrdd o ohebiaeth papur i systemau electronig er mwyn adlewyrchu systemau di-bapur y Gwasanaeth Cynllunio. |
| Yn parhau i ymgysylltu gyda Chynghorau Tref a Chymuned drwy Fforwm Cynllunio Ynys Môn. Bydd hyn yn cynnwys sesiynau briffio/hyfforddiant ar faterion perthnasol. | Yn parhau i arwain (Cadeirydd ac eitemau ar y rhaglen) Grŵp Ffocws Cynghorau Tref a Chymuned Ynys Môn. |

Draft

**Moeseg**

Byddwn yn darparu gwasanaeth moesegol i bobl leol, gan ddilyn y safonau priodol a'r Codau Ymddygiad.

| Cyngor Sir Ynys Môn | Cynghorau Tref a Chymuned |
|---|---|
| Yn ychwanegol at y ddyletswydd statudol i ddarparu hyfforddiant ar y cod ymddygiad, bydd y Cyngor, drwy'r Swyddog Monitro a benodwyd, yn rhoi cefnogaeth i'r Cynghorau Tref a Chymuned o ran ystyried a rhoi cyngor mewn modd amserol mewn perthynas â defnyddio'r Côd Ymddygiad i Aelodau. | Ni fydd cynghorwyr cymuned a thref yn gwneud cwynion blinderus o dan y Cod a byddant yn rhoi'r holl wybodaeth y mae'r Swyddog Monitro yn gofyn amdani fel y gall ef/hi gyflawni ei rôl yn effeithiol. |
| Yn sicrhau bod cynrychiolwyr o'r Cynghorau Tref a Chymuned yn cael eu penodi i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau. | Yn darparu enwebiadau ar gyfer cynrychiolwyr y Cynghorau Tref a Chymuned I wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau pan fydd swydd wag yn codi. |

**Trefniadau ariannol**

Mae'r Cyngor Sir a'r Cynghorau Tref a Chymuned yn cydnabod yr angen am eglurder a thryloywder o ran trefniadau ariannol. Wrth ddatblygu a gweithredu trefniadau ariannol, caiff blaenoriaethau cenedlaethol a lleol perthnasol eu hystyried.

| Cyngor Sir Ynys Môn | Cynghorau Tref a Chymuned |
|---|---|
| Wrth bennu'r dreth gyngor ar gyfer yr ardal, bydd y Cyngor Sir yn ystyried y gwasanaethau a ddarperir gan y Cynghorau Tref a Chymuned yn ei ardal, a'r broses o'u hariannu. Nod hyn fydd osgoi treth ddwbl. | Wrth bennu'r praesept blynyddol, bydd Cynghorau Tref a Chymuned yn ystyried cynlluniau'r Cyngor Sir o ran darparu gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod. |

**Dirprwyo cyfrifoldebau am ddarparu gwasanaethau**

Dylid darparu gwasanaethau yn y ffordd fwyaf effeithiol, gan ystyried gwerth am arian a gwerth ychwanegol i bobl leol.

| Cyngor Sir Ynys Môn | Cynghorau Tref a Chymuned |
|---|---|
| Bydd y Cyngor Sir yn ystyried pob achos a gyflwynir gyda dadl resymol dros ddirprwyo'r broses o ddarparu gwasanaethau i Gynghorau Tref a Chymuned gan seilio ei ystyriaeth yn bennaf ar wella'r broses o ddarparu gwasanaethau i ddinasyddion tra'n sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gynnal neu ei wella. | Bydd Cynghorau Tref a Chymuned yn cydnabod bod rhai achosion lle nad yw'n briodol nac yn ddymunol i'r Cyngor Sir ddirprwyo'r broses o ddarparu gwasanaethau. |

Draft

| | |
|---|---|
| Pan na fydd yn briodol nac yn ddymunol i ddirprwyo'r broses o ddarparu gwasanaethau, bydd y Cyngor Sir yn ceisio ffyrdd o ddefnyddio gwybodaeth leol gan gymunedau i wella'r broses o ddarparu gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion dinasyddion yn well. | Bydd Cynghorau Tref a Chymuned yn ymgysylltu â'r dinasyddion yn y cymunedau a wasanaethir ganddynt i ddeall eu hanghenion yn well ac i gyfleu'r anghenion hyn mewn modd cydlynol ac adeiladol i'r Cyngor Sir, er mwyn eu cymryd i ystyriaeth wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. |

**Cynllun Integredig Sengl**

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd strategol y Cynllun Integredig Sengl. *(Erbyn Ebrill 2013, bydd angen integreiddio'r holl gynlluniau statudol allweddol i Gynllun Integredig Sengl. Bydd y Cynllun hwn yn adeiladu ar ac yn disodli'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc, y Strategaeth Iechyd,Gofal Cymdeithasol a Lles, y Cynllun Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r Strategaeth Gymunedol.)* At hynny, rydym yn cydnabod mai'r unig ffordd o wneud y Cynllun Integredig Sengl yn un hollol effeithiol yw drwy sicrhau ei fod yn cael ei fwydo gan brofiadau sy'n deillio o'n cymunedau.

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | **Cynghorau Tref a Chymuned** |
|---|---|
| Yn cynnwys Cynghorau Tref a Chymuned yn y broses o greu a gweithredu'r Cynllun Integredig Sengl. | Yn ymateb yn egnïol a llawn i'r ymgynghori ar y Cynllun Integredig Sengl a chymryd rhan yn y gwaith o fonitro'r Cynllun ar lefel bartneriaethol. |

**Etholiadau Lleol**

Etholiadau teg ac agored yw conglfaen democratiaeth leol. Byddwn yn sicrhau bod etholiadau yn cael eu hymladd mewn ffordd rydd a theg, ac yn annog pobl leol i chwarae rhan mewn democratiaeth leol.

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | **Cynghorau Tref a Chymuned** |
|---|---|
| Yn cynnwys Cynghorau Tref a Chymuned yn y broses o gynllunio etholiadau lleol. | Yn annog aelodau'r gymuned leol i gymryd rhan mewn etholiadau lleol. |
| Yn cynnwys Cynghorau Tref a Chymuned mewn unrhyw ymgyrch i godi ymwybyddiaeth neu ymgyrch gyhoeddusrwydd er mwyn annog enwebiadau ar gyfer ymgeiswyr mewn etholiadau lleol. | Yn sicrhau yr hysbysebir swyddi gwag ar Gynghorau Tref a Chymuned yn eang er mwyn sicrhau'r gynrychiolaeth fwyaf posibl gan y gymuned. |
| Yn helpu i hysbysebu etholiadau lleol sydd ar fin cael eu cynnal ar ran Cynghorau Tref a Chymuned. | Yn hwyluso cyfranogiad y cyhoedd ymhob un o gyfarfodydd perthnasol y cyngor a'i bwyllgorau i annog cyfranogiad cymunedau. |
| Yn briffio clercod Cynghorau Tref a Chymuned ar y broses enwebu fel y | |

Draft

| | |
|---|---|
| gallant gynorthwyo unrhyw ddarpar ymgeiswyr ar gyfer etholiadau lleol. | |
| Yn rhoi help a chefnogaeth gyda phrosesau a gweithdrefnau cyfreithiol a gweinyddol etholiadau lleol. | |

**Cynllun Gweithredu**

Cefnogir y Siarter hon gan y broses o ddatblygu Cynllun Gweithredu. Caiff y Cynllun Gweithredu ei ddatblygu ar y cyd a bydd yn rhoi cyfrifoldebau i bob partner. Caiff amserlen ei llunio ar gyfer pob cam gweithredu. Adolygir y Siarter bob blwyddyn.

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | **Cynghorau Tref a Chymuned** |
|---|---|
| Yn enwebu swyddog i arwain y gwaith o ddatblygu a monitro'r Cynllun Gweithredu. | Yn cytuno gyda'i gilydd ar flaenoriaethau i'w cynnwys yn y Cynllun Gweithredu. |
| Yn cyfrannu at ddatblygu a chyflawni'r Siarter a'r Cynllun Gweithredu. | Cyfrannu'n egnïol at ddatblygu a chyflawni'r Siarter a'r Cynllun Gweithredu. |

**Casgliad**

Mae'r Cynghorau Tref a Chymuned a'r Cyngor Sir yn ymrwymo i egwyddorion a datganiadau'r siarter, er budd pobl leol.

**………………………………………………….**

**………………………………………………….**

**Atodiadau:**

[i'w hychwanegu lle bo hynny'n berthnasol]

Draft

4 Ebrill, 2012

Drafft